

VAN MORRISON

Wedi ei eni yn 1945 clywodd Van gasgliad ei dad, y gweithiwr llongau, o gerddoriaeth blues, gwlad a gospel yn gynnar yn ei blentyndod. Wedi ei fwydo ar fawrion cerddorol fel Hank Williams, Jimmie Rodgers, Muddy Waters, Mahalia Jackson a Leadbelly, roedd yn gerddor teithiol yn 13 oed ac yn canu, chwarae gitâr a sax mewn sawl band, cyn ffurfio *Them* yn 1964.

Gan wneud eu henw yng Nghlwb Morwrol Belfast, cyn hir, sefydlodd *Them* y cerddor Van fel grym mawr yn y sîn R&B yng ngwledydd Prydain. Llwyddodd talent lleisiol a chyfansoddi caneuon digymar Morrison i gynhyrchu clasuron ar amrantiad fel 'Gloria' a 'Here Comes The Night' a berfformiwyd droeon gan eraill.

Daeth y doniau syfrdanol hynny i'w llawn dwf yng ngyrfa unigol Van. Ar ôl gweithio gyda chynhyrchydd *Them* yn Efrog Newydd, Bert Berns, ar 'Brown Eyed Girl' (1967), a gyrhaeddodd y 40 uchaf, symudodd Morrison i ryw lefel arall.

"... ni fu unrhyw awgrym erioed y byddai Morrison, un o artistiaid recordio mwyaf toreithiog a pherfformwyr byw mwyaf gweithgar ei oes, fyth yn gorffwys ar ei rwyfau."

Wedi'i recordio dros 3 diwrnod gyda cherddorion jazz chwedlonol, mae Astral Weeks (1968) yn albwm unigryw o hyd sy'n cyfuno barddoniaeth stryd, cerddoriaeth jazz fyrfyfyfyr, haenau Celtaidd a bonllefain Affro Celtic Blues.

Byddai Morrison yn plethu'r rhain â myrdd o ddylanwadau eraill i'r albymau a ddilynodd un ar ôl y llall.

Gan fyfyrio ar fywyd newydd yn America ar seiniau soul Sinatraid eu naws ar Moondance (1970) a'r dylanwadau gwlad ar Tupelo Honey (1971) atgyfododd hen fywyd ysbrydol a hynafol yn y trac epig o'r albwm St Dominic's Preview (1972) sef Listen To The Lion.

Amlygodd albwm byw dwbl Too Late To Stop Now (1973) sgiliau perfformio Morrison a'i sgiliau fel arweinydd band. Gan fapio cwrs cerddorol hynod o amrywiol drwy gydol y 70au disgleiriodd ymhlith cast o sêr gan gynnwys Bob Dylan a Muddy Waters ar The Band's Last Waltz.

Yn wir, yn ôl ei gyneddfau Showband Gwyddelig, mae hud y perfformiad byw wedi bod yn nodwedd gyson o yrfa Morrison.

Gan ymgartrefu'n ôl i fywyd yn y Deyrnas Gyfunol ym 1980 rhyddhaodd Common One, albwm a'r gân Summertime In England yn ganolbwynt iddo, deisyfiad rhyfeddol at bleser llenyddol, synhwyrol ac ysbrydol, cân a fyddai'n aml yn dod yn ganolbwynt byrfyfyr gwefreiddiol i'w sioeau byw.

Gan lywio ei gwrs ei hun drwy gydol yr 80au ar albymau fel No Guru, No Method, No Teacher hawliodd ei wreiddiau Celtaidd gyda'r Chieftains ar Irish Heartbeat. Wrth ymuno â Georgie Fame daeth symbyliad newydd i'w sioe fyw tra aeth Avalon Sunset ag ef yn ôl i'r siartiau albwm a siartiau'r senglau erbyn diwedd y ddegawd.

Parhaodd Van Morrison i adeiladu ar ei statws fel artist gweddnewidiol drwy'r 90au

ac i'r 21ain ganrif.

Gwobrau ac anrhydeddau - marchog, Brit, OBE, Ivor Novello, 6 Grammy, doethuriaethau anrhydeddus o Brifysgol Queens Belfast a Phrifysgol Ulster, ei gynnwys yn y Rock and Roll Hall of Fame a'r *Ordres Des Artes Et Des Lettres* Ffrengig - oll yn tystio i gyrhaeddiad rhyngwladol celfyddyd gerddorol Van Morrison.

Ac eto, ni fu unrhyw awgrym erioed y byddai Morrison, un o artistiaid recordio mwyaf toreithiog a pherfformiwr byw mwyaf gweithgar ei oes, fyth yn gorffwys ar ei rwyfau.

Mae ehangder a chyrhaeddiad ei waith ar y cyd ag eraill yn parhau yn 2015 gyda rhyddhau ei albwm newydd 'Duets: Re-working The Catalogue'. Yn cynnwys cantorion mor ddylanwadol ac amrywiol â Bobby Womack, Gregory Porter, Mavis Staples a Michael Bublé, mae'r albwm yn ail-weithio caneuon wedi'u dethol o gatalog Morrison o dros 360 o draciau yn cwmpasu ei yrfa. Gan gynnwys caneuon fel Real Gone, Higher Than The World ac Irish Heartbeat, recordiwyd yr albwm yn ei dref enedigol, Belfast a Llundain dros y flwyddyn ddiwethaf, gan ddefnyddio amrywiaeth o gerddorion a threfniadau cerddorol newydd.

Gydag un o'r catalogau mwyaf ei barch yn hanes cerddoriaeth a'i ddoniau digyffelyb fel cyfansoddwr, canwr a pherfformiwr, mae camp Morrison yn bwrw'i gysgod yn hir. Ond, fel drwy gydol ei yrfa ryfeddol, mae'r modd y mae'r gorffennol hwnnw'n llywio ei gyflawniadau yn y dyfodol ac yn dal i ennyn cyffro ac edrych ymlaen brwd.

Ac felly yn 2017 rhyddhaodd Van ei 37ain a'i 38fed albwm stiwdio, gyda'r cyntaf ohonynt, Roll With The Punches, yn arlwy â blas y blues. Mae'r albwm 15 trac yn ailgysylltu Morrison ag artistiaid fel Leadbelly, Lightnin' Hopkins, Little Walter a Bo Diddley... cerddorion glywodd Van gartref am y tro cyntaf ar radiogram y teulu. Ond yn fwy na hynny, mae'n dwyn Van ynghyd â cherddorion y daeth ar eu traws ar hyd y daith yn ystod ei gyfnod gyda *Them* yn anterth y blues yn y '60au wrth i Chris Farlowe, Paul Jones o *Manfred Mann* a Jeff Beck o'r *Yardbird* oll gyfrannu i'r recordiadau. Mae'r jambalaya cyfoethog sy'n cael ei fwynhau ar Roll With The Punches yn ddrych o Van Morrison yn edrych yn ôl, ac yn symud ymlaen. Ac er ei fod yn cyfeirio at y gorffennol, mae Morrison bob amser yn ei berchnogi, gan roi ei stamp digamsyniol ei hun ar yr hyn a fu.

Yn dilyn yn dynn wrth gynffon rhyddhau Roll with the Punches daeth yr albwm â'r teitl addas Versatile. Mae'r albwm hwn yn gweld Morrison yn pontio genres blues a soul ac yn ailgysylltu â'i gariad at jazz. Yn yr un trac ar bymtheg sydd Versatile, mae Van Morrison yn dehongli rhai o flocciau adeiladu cerddoriaeth fodern yn ei arddull gwbl unigryw ei hun. Yn ogystal â chaneuon a wnaed yn enwog yn wreiddiol gan rai fel Chet Baker, Frank Sinatra, y Righteous Brothers, Tony Bennett a Nat King Cole, mae Versatile yn cynnwys y cyfansoddiad syfrdanol newydd gan Van, Broken Record – darn di-amser o swing hwyr y nos – a dehongliadau newydd o glasuron o'i ôl-gatalog (I Forgot That Love Existed o'r albwm o 1987, Poetic Champions Compose, Start All Over Again oddi ar Enlightenment y 1990au ac Only A Dream oddi ar Down the Road o 2002).

Mae 2018 yn flwyddyn arwyddocaol yng ngyrfa Morrison, gan nodi 50 mlynedd ers rhyddhau'r albwm eiconig Astral Weeks yn 1968. Hyd yma, mae Morrison wedi codi

stêm gan ddechrau gyda chyfres o sioeau yn UDA a sioeau pellach wedi'u trefnu ar gyfer Ewrop yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Nid yw Morrison yn dangos unrhyw arwydd o arafu, gan barhau i weithio ar ddeunydd newydd a phrosiectau cyffrous sydd ar y gweill.